



Dinas a Sir Abertawe

Cofnodion Cyfarfod **Is-bwyllgor Trwyddedu Statudol**

Cynhelir y cyfarfod o bell drwy Microsoft Teams

Dydd Mercher, 28 Ebrill 2021 am 10.00am

Yn bresennol: Y Cyngorydd P M Matthews (Cadeirydd) fu'n llywyddu

Y Cyngorydd
S J Gallagher

Y Cyngorydd
P Lloyd

Swyddogion

Aled Gruffydd
Bethan Walker
Lynda Anthony
Samantha Woon

Cyfreithiwr
Swyddog Trwyddedu
Rheolwr Trwyddedu, Bwyd a Diogelwch
Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Awdurdodau Cyfrifol:

Yvonne Lewis
Craig Davies
Rachel Loosemore

Arweinydd Tîm, Trwyddedu
Cyfreithiwr
Swyddog Trwyddedu

Cynrychiolydd yr Ymgeisydd

Bruno Nunes
William Parry

Ymgeisydd
Cyfreithiwr yr Ymgeisydd

1 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

2 Deddf Trwyddedu 2003 - Cais Adran 17 am Drwydded Mangre - Bambu Beach Bar, 51-52 Wind Street, Abertawe.

Croesawodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol i'r cyfarfod a gofynnodd i bawb a oedd yn bresennol gyflwyno eu hunain.

Adroddodd y Swyddog Trwyddedu am y cais am drwydded mangre newydd mewn perthynas â Bambu Beach Bar, 51-52 Wind Street, Abertawe.

Cyfeiriodd at y cais am drwydded mangre yn Atodiad A, cynllun lleoliad y fangre yn Atodiad B, hyrwyddo amcanion y drwydded, amodau a oedd yn gyson â'r atodlen weithredu yn Atodiad C, a'r sylwadau a wnaed gan Awdurdodau Cyfrifol yn Atodiad D ac Atodiad E.

Cyfeiriodd at y penderfyniad ynghylch y cais, o ystyried bod y cais mewn perthynas â thrwydded mangre ar gyfer mangre sydd yn ardal Polisi Arbennig Wind Street.

Nodwyd bod y safle wedi'i leoli yng nghanol y ddinas o fewn ardal a ddiffinnir gan Ddatganiad Polisi Trwyddedu'r cyngor fel ardal effaith gronol a chyfeiriwyd at baragraff 6 o'r Polisi Arbennig ar Effaith Gronol a fabwysiadwyd gan y cyngor ar 30 Gorffennaf 2013, a'r ddolen i'r Canllawiau. Cyfeiriwyd hefyd at effaith polisïau arbennig gyda dyfyniad o Ganllawiau'r Swyddfa Gartref (a'r ddolen i'r canllawiau).

Derbyniwyd cynrychiolaeth gan Heddlu De Cymru ar y sail bod Polisi Arbennig ar waith ar gyfer lleoliad y safle. Cyfeiriodd y gynrychiolaeth at y cynnydd arfaethedig yn nifer y cwsmeriaid yn y lleoliad a'r cynnydd tebygol mewn effaith gronol ar ardal Wind Street. Atodwyd copi o gynrychiolaeth Heddlu De Cymru yn Atodiad D.

Derbyniwyd cynrychiolaeth gan yr Awdurdod Trwyddedu, a oedd yn gweithredu fel Awdurdod Cyfrifol, ar y sail bod Polisi Arbennig ar waith ar gyfer lleoliad y safle. Atodwyd copi o'r gynrychiolaeth yn Atodiad D.

Tynnodd Jon Hancock, Heddlu De Cymru, sylw pellach at ei sylwadau ysgrifenedig gan wrthwynebu'r cais a nodi ei bryderon mewn perthynas â thanseilio'r Amcanion Trwyddedu Statudol mewn perthynas ag Ataliaeth Trosedd ac Anrhefn a Niwsans Cyhoeddus. Cyfeiriodd Mr Hancock at gyflwyniad i gefnogi cynrychioliadau'r Heddlu gan Mr Steve Jones.

Tynnodd Rachel Loosemore, Swyddog Trwyddedu, sylw pellach at ei sylwadau ysgrifenedig gan wrthwynebu'r cais gan dynnu sylw at ei phryderon ynghylch tanseilio'r Amcanion Trwyddedu Statudol mewn perthynas ag Ataliaeth Trosedd ac Anrhefn a Niwsans Cyhoeddus.

Mewn ymateb i gwestiwn Aelod, cadarnhaodd Mr Hancock, o'r 13 digwyddiad a nodwyd yn y safle, yr ymdriniwyd â 4 drwy gosb benodedig neu gyfiawnder adferol.

Dywedodd Mr W Parry, y cyfreithiwr a oedd yn cynrychioli'r ymgeisydd, fod yr ymgeisydd wedi arddangos y camau i'w cymryd i liniaru unrhyw effaith negyddol. Cyfeiriodd at y rheoliadau Diogelwch Tân a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Gweithredwr gael cyfundrefn a fyddai'n sicrhau cydymffurfiaeth â'r gorchymyn.

Dywedodd fod y Drwydded a roddwyd ar 1 Medi 2020 yn gosod terfyn o uchafswm o 620 o bobl ac ailadroddodd mai dyna'r unig safle yn Wind Street i fod yn destun amod o'r fath.

Dywedodd fod yr Ymgeisydd, Mr Nunes, wedi darparu manylion y seddi sefydlog ar 3 llawr o'r safle a'r cynnig o fwyd ar bob llawr a oedd yn arwyddocaol iawn wrth ystyried y cais. Roedd y cynigion yn cynnig deinameg ddemograffig wahanol,

gwelliant sylweddol o ran diogelwch, cysur a symudiad oddi wrth Sefydliadau Yfed Alcohol Sylweddol ar eich Sefyll (HVVDE).

Cyfeiriodd at fuddsoddiad £3m y cyngor yn Wind Street gyda'r nod o ddarparu amgylchedd croesawgar, diogel a chyfeillgar i deuluoedd. Roedd Mr Nunes wedi bod yn lobïo ers sawl blwyddyn ac roedd y cais hwn yn rhan o'r broses honno.

Cydnabu'r ymgeisydd yr angen am Bolisi Effaith Gronnol (CIP) ac, fel y dangoswyd, roedd wedi lliniaru unrhyw effaith negyddol. Nodwyd bod ystadegau troseddu yn isel iawn.

Rhoddodd Mr B Nunes, Ymgeisydd, fanylion cefndir mewn perthynas â'r cais. Nodwyd bod ganddo 26 blynedd o brofiad o fewn y fasnach.

Cyfeiriodd at effaith pandemig COVID-19 dros y 13 mis diwethaf a arweiniodd at yr Heddlu'n ymdrin â thrais, ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yfed ar draethau ac ardaloedd cyhoeddus eraill. Dywedodd fod Bambu yn gweithredu i'r un safon â safleoedd eraill ar Wind Street ac na fyddai'n ychwanegu unrhyw effaith negyddol. Dywedodd fod troseddu ac anhrefn yn gyffredin mewn lletygarwch yn ystod y dydd ond y bu dirywiad cyson a graddol mewn trosedd.

Ailadroddodd nodau allweddol y gwaith adnewyddu a fyddai'n denu math gwahanol o gwsmer. Roedd y safle a oedd newydd ei adnewyddu yn cynnig 36% o seddi o'i gymharu ag 20% cyn ei adnewyddu. Er i'r safle ddenu 3,600 o gwsmeriaid yr wythnos, dim ond 9 digwyddiad oedd wedi'u cofnodi. Dywedodd fod diogelwch staff a chwsmeriaid yn hollbwysig.

Cyfeiriodd at ddiben y strategaeth hysbysebu er mwyn hyrwyddo lefel y buddsoddiad yn y gwaith adnewyddu.

Mewn ymateb i gwestiynau gan aelodau, nododd yr ymgeisydd:

- 1) Byddai lefelau staff yn cael eu haddasu i gyfateb â lefelau cwsmeriaid/cyfaint y fasnach. Roedd strwythur rheoli cryf a byddai diogelwch yn cynnwys 10 personél ar gyfnodau prysur, 2 aelod o staff diogelwch ar gyfer pob 200 o gwsmeriaid.
- 2) Byddai gwasanaeth gweinydd/gweinyddes yn cael ei gynnig yn ogystal â thechnoleg er mwyn archebu a fyddai'n lleddfu unrhyw rwystredigaeth o ran cwsmeriaid sy'n deillio o giwiau hir wrth y bar. Mae'r llawr cyntaf wedi'i rannu'n 2 far i leddfu unrhyw bwyntiau pwysau.
- 3) Er bod y diwydiant lletygarwch ar gau, mae trosedd ac anhrefn yn dal i ddigwydd sy'n dangos nad yw trosedd ac anhrefn o ganlyniad i economi a reoleiddir yn ystod y nos yn unig.
- 4) Ni ellir symud seddi ar y llawr gwaelod gan fod y celfi wedi'u creu'n bwrpasol. Lleolir drymiau olew ar yr ail lawr a gellid eu dadsgriwio o'r llawr. Mae adran rhaff sy'n cynnwys seddi. Er y gellid symud y seddi nid oes lle i storio'r celfi. Mae pen pellaf yr ail lawr yn cynnwys seddi sefydlog.
- 5) O ystyried maint y lleoliad, nid oes pwysau i ddadosod celfi i ddarparu rhagor o le.

- 6) Mae gan y mangre drwyddedig fyddin o staff sydd yno'n cadw mesurau rheoli ar waith. Os nad ydynt yno yna mae'r materion yn codi. Mae mangreoedd trwyddedig yn denu adnoddau ond mae angen mwy o adnoddau hebddynt.
- 7) Roedd cyfleusterau toiled newydd wedi'u cyflwyno (am gost sylweddol) i wrthsefyll materion hanesyddol o droethi y tu allan i'r safle yn y lôn gefn.
- 8) Byddai mannau ysmegu yn yr awyr agored ar gael ar y llawr cyntaf a'r ail lawr, er na wnaed unrhyw benderfyniad ynglŷn ag ysmegu wrth giwio o flaen y safle.
- 9) Mae'r adeilad yn adeilad rhestredig gradd 2. Roedd 1 grisiau mewnol a 2 risiau allanol wedi'u cynnwys ynghyd â mesanîn. Caiff lloriau uchaf yr adeilad eu defnyddio os bydd niferoedd cwsmeriaid yn golygu bod angen gwneud hynny.
- 10) Bydd staff diogelwch yn monitro ac yn rheoli llif y cwsmeriaid i'r lloriau uchaf. Ni allai unrhyw lawr fynd dros gapasiti oherwydd rheoliadau diogelwch tân. Bydd system synhwyrdd symudiad (beam break) hefyd yn weithredol.

Dywedodd Mr W Parry, Cyfreithiwr sy'n gweithredu ar ran yr ymgeisydd, wrth grynhoi, mai dyletswydd y pwyllgor oedd ystyried y cais yn ôl ei rinweddau. Anogodd y pwyllgor i ystyried cau'r safle (oherwydd pandemig COVID-19) ers cyflwyno'r Polisi a'i adolygu'n ddiweddarach. Roedd nifer yr ymwelwyr â Wind Street wedi lleihau'n sylweddol ers cyflwyno'r polisi ac mae ffigurau trosedd ar gyfer y safleoedd hyn yn isel iawn. Roedd y safle wedi elwa o well ansawdd, seddau a darpariaeth bwyd drwy'r tri llawr yn ystod oriau masnachu. Dywedodd fod angen i'r sector lletygarwch yn ei gyfanrwydd gael ei gefnogi yn ogystal â'r cais hwn.

Penderfynwyd eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r gwrandawriad yn unol â pharagraff 14 o Reoliadau Deddf Trwyddedu (Gwrandawriadau) 2005, fel y gall yr Is-bwyllgor gael cyngor cyfreithiol.

(SESIWN GAEËDIG)

Trafododd yr aelodau'r materion ynghylch y cais.

(SESIWN AGORED)

Rhoddodd y cyfreithiwr a oedd yn cynghori'r Is-bwyllgor drosolwg cynhwysfawr o'r cyngor cyfreithiol a roddwyd.

Dywedodd y Cadeirydd fod yr Is-bwyllgor wedi ystyried y cais a'r sylwadau a wnaed ynghyd â holl anghenion a buddion yr holl bartïon o ran Datganiadau Polisi Trwyddedu'r cyngor, arweiniad statudol a gofynion Deddf Trwyddedu 2003.

Penderfynodd yr Is-bwyllgor i gymeradwyo'r cais yn amodol ar amodau sy'n gyson â'r amserlen weithredu fel y'u hystyrir yn briodol i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu isod.

- 1) CCTV will be provided in the form of a recordable system, capable of providing pictures of evidential quality in all lighting conditions, particularly facial recognition. Cameras shall encompass all ingress and egress to the premises, fire exits, all areas where the public have access and any external drinking areas. Equipment must be maintained in good working order, the system must continually record whilst the premises is open for licensable activities and during

all times when customers remain at the premises. Recordings must be correctly timed and date stamped, recordings must be kept in date order, numbered sequentially and kept for a period of 31 days and handed to a Police Officer/Local Authority Officer on demand. The Premises Licence Holder must ensure that at all times a Designated Premises Supervisor (DPS) or appointed member of staff is capable and competent at downloading CCTV footage in a recordable format either disc or VHS to a Police Officer/Local Authority Officer on demand. The Recording equipment and tapes/discs shall be kept in a secure environment under the control of the DPS or other responsible named individual. An operational daily log report must be maintained, endorsed by signature, indicating the system has been checked and is compliant. In the event of any failings the actions taken are to be recorded. In the event of technical failure of the CCTV equipment, the Premises Licence holder/DPS must report the failure to the Police/Local Authority.

- 2) Dim ond gwydrau nad ydynt yn wydr, addas y gellir eu defnyddio yn y fangre ar ddiwrnodau y'u hystyriir yn ddiwrnodau digwyddiadau mawr yn yr ardal, sy'n destun y cymhwyster isod. Dylid rhoi gwybod i'r Goruchwyliwr Mangre Dynodedig yn ysgrifenedig am ddiwrnodau o'r fath o leiaf 14 niwrnod cyn y digwyddiad, neu gyda chytundeb Pub and Club Watch. Ni fydd y gofyniad i ddefnyddio gwydrau nad ydynt yn wydr, addas ar ddiwrnodau digwyddiadau mawr yn berthnasol i boteli o wirodydd heb eu cymysgu neu siampên, os ydynt yn cael eu gweini wrth y bwrdd gan weinydd/weinyddes. Mewn amgylchiadau o'r fath, rhaid bod o leiaf un goruchwyliwr drws SIA ar ddyletswydd yn agos at y bwrdd lle mae'r botel yn cael ei gweini. Bydd datgymhwyso'r gofyniad mewn perthynas â gwydrau plastig yn gymwys hefyd ar gyfer partiön sydd wedi cadw bwrdd ymlaen llaw. Unwaith bydd y botel a oedd yn cynnwys y gwirod heb ei gymysgu neu'r siampên yn wag, mae'n rhaid i'r gweinydd/weinyddes ei dychwelyd i'r bar er mwyn cael gwared arni. Ar ôl i'r cwsmeriaid adael y bwrdd a archebwyd ymlaen llaw, mae'n rhaid i'r gweinydd/weinyddes dychwelyd y botel, p'un a yw'n wag neu'n llawn, i'r bar yn syth. Rhaid i'r rheolwyr gadw cofnod o'r byrddau a archebwyd ymlaen llaw at ddiben bodloni'r amod hwn, ac mae'n rhaid sicrhau bod cofnodion o'r fath ar gael i'w harchwilio gan yr heddlu neu swyddog trwyddedu ar gais. Rhaid i gwsmeriaid sy'n eistedd wrth fwrdd a archebwyd ymlaen llaw, ac sydd wedi derbyn potel o wirod heb ei gymysgu neu siampên, gael eu monitro gan staff er mwyn sicrhau nad oes unrhyw unigolyn mewn cyflwr lle dylai beidio ag yfed alcohol. Rhaid i'r fangre weithredu polisi ad-daliadau er mwyn rhoi ad-daliad addas i gwsmeriaid ar gyfer yr alcohol nas yfwyd os nad ydynt yn yfed y botel lawn o wirod heb ei gymysgu ac yn ei dychwelyd i'r fangre.
- 3) Oni bai am werthiannau mewn cynhwysyddion wedi'u selio, ni ddylai cwsmeriaid y fangre fynd ag unrhyw wydrau neu boteli gwyr y tu allan i'r ardal drwyddedig.
- 4) Bydd o leiaf 2 goruchwyliwr drws SIA trwyddedig ar ddyletswydd yn y fangre o 21:00 ar nos Fercher, nos Wener a nos Sadwrn ac ar nos Sul cyn Gŵyl y Banc. Ar bob adeg arall, defnyddir goruchwyliwyr drws pan nodir gofyniad am hynny yn asesiad risg ysgrifenedig deiliaid y drwydded. Rhoddir ystyriaeth i natur y digwyddiad, gwylliau cyhoeddus a diwrnodau y'u hystyriir yn ddiwrnodau digwyddiadau mawr yng nghanol y ddinas.

(Sylwer y dylai nifer y goruchwylwyr wrth y drws ddibynnu ar y math o fusnes rydych yn ei weithredu, proffil y dorf a digwyddiadau penodol a gynhelir yn y fangre).

Gweler y tabl.

Aelodau'r cyhoedd yn bresennol	Nifer y Goruchwylwyr Drws
1-100	2
100-250	3
250-500	4
500-750	5
750-1,000	6
1,000-1,250	9
1250-1500	10
1,500-2,000	12

Mwy na 2,000 - o leiaf 12, ac unrhyw stiwardiaid tebyg sy'n ofynnol gan y Prif Swyddog Tân neu'r cyngor.

- 5) Dylid cadw cofrestr o oruchwylwyr drysau (Cofrestr Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel neu gofrestr rifiadol debyg wedi'i rhwymo) ar bob adeg yn y fangre. Dylai cofrestr o'r fath gynnwys enw, rhif cofrestru, manylion cyswllt y staff wrth y drws ynghyd â'r dyddiad a'r amser ar ddyletswydd ac oddi ar ddyletswydd. Dylid cyflwyno manylion llawn yr asiantaeth sy'n cyflenwi'r staff i'w cymeradwyo ynghyd â sicrhau bod y gofrestr ar gael i'w harchwilio ar gais gan swyddog awdurdodedig.
- 6) Arwyddion i'w harddangos mewn man amlwg wrth fynedfa'r safle, o fewn y cyfleusterau toiled ac ym manau strategol allweddol mewn ardaloedd mynediad cyhoeddus, gan nodi bod defnyddio cyffuriau yn annerbyniol a bod y lleoliad yn gweithredu polisi chwilio am gyffuriau fel amod mynediad, gan gadw'r hawl i chwilio cwsmeriaid o dan y ddarpariaeth hon.
- 7) Dylai'r fangre fynd ati i gymryd rhan mewn mentrau rheolaidd i dargedu camddefnyddio cyffuriau yn y lleoliad gan gynnwys cydweithredu'n llwyr â gweithrediadau nodi a chwilio am gyffuriau a gaiff eu harwain gan Heddlu De Cymru.
- 8) Bydd sêff gyffuriau yn y fangre ar bob adeg.
- 9) Bydd rheolwyr/goruchwylwyr y fangre'n mynd i sesiynau'r City Centre Pub and Club Watch ac yn cymryd rhan lawn yn y cynllun.
- 10) Bydd mangreoedd yn cymryd rhan weithredol yng nghynllun cyfathrebiadau radio Nitenet canol y ddinas. Bydd cyfranogiad yn cynnwys yn benodol aelod o staff sy'n gyfrifol am fewngofnodi i'r system, monitro, ymateb i ddarllediadau, gwneud darllediadau pan fydd digwyddiadau er mwyn rhybuddio mangreoedd eraill sy'n defnyddio'r system ac allgofnodi o'r system. Rhaid gwneud hyn bob tro y mae'r fangre ar agor i gwsmeriaid ac yn masnachu.

- 11) Bydd y fangre'n cymryd rhan weithredol yng nghynllun gorchymyn gwahardd canol y ddinas.
- 12) Rhaid cynnal llyfr digwyddiadau (Llyfr Digwyddiadau Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel neu gofrestr rifiadol fanwl) ar bob adeg er mwyn cofnodi unrhyw ddigwyddiadau o bwys.
- 13) Bydd y fangre'n rhoi cyfnod o hanner awr rhwng 03:00 a 03:30 i orffen unrhyw ddiodydd a gadael i gwsmeriaid ddefnyddio cyfleusterau'r toiledau a gadael y fangre.
- 14) Bydd yr ardal allanol o flaen llawr gwaelod y fangre a weithredir dan drwydded caffï palmant yn cael ei dangos yn glir a'i hamgáu gan rwystrau.
- 15) Ni fydd unrhyw berson yn cyflwyno unrhyw arddangosfa, dangosiad neu berfformiad hypnotiaeth, cyfareddu neu weithred debyg yn y fangre, neu unrhyw broses sy'n arwain at, neu y bwriedir iddi arwain at achosi rhywun i gysgu neu achosi swyngwsg lle cynyddir agoredrwydd meddwl y person hwnnw i awgrymiadau neu gyfarwyddyd neu y bwriedir ei gynyddu. SYLWER: (1) Nid yw'r rheol hon yn berthnasol i arddangosfeydd a roddir dan ddarpariaethau Adran 2(1A) a 5 Deddf Hypnotiaeth 1952.
- 16) Bydd cyflenwad digonol a phriodol o gyfarpar a deunyddiau cymorth cyntaf ar gael yn y fangre
- 17) Ni fydd unrhyw yfed yn digwydd yn yr ardal a gwmpesir gan y drwydded caffï palmant, ac eithrio cwsmeriaid sy'n eistedd wrth y byrddau a ddarperir ac ni fydd unrhyw ddiodydd yn cael eu gweini mewn cynwysyddion gwydr ar unrhyw adeg yn yr ardal hon.
- 18) Cyn gwneud defnydd o'r fangre ar gyfer gweithgareddau trwyddedadwy, bydd cynllun inswleiddio sain a ddynodir gan ymgynghorydd acwstig cymwys i gynnwys sŵn o fewn cwrtill y fangre, yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan Is-adran Rheoli Llygredd Adran yr Amgylchedd, Dinas a Sir Abertawe. Ar ôl ei gymeradwyo'n ysgrifenedig, caiff y cynllun inswleiddio sain ei osod a'i gynnal a'i gadw'n iawn.
- 19) Gosodir hysbysiadau mewn mannau amlwg wrth bob allanfa yn gofyn i gwsmeriaid barchu anghenion preswylwyr lleol ac i adael yr ardal yn dawel.
- 20) Gosodir hysbysiadau mewn mannau amlwg a ddefnyddir ar gyfer smygu yn gofyn i gwsmeriaid barchu anghenion trigolion lleol ac i ddefnyddio'r ardal yn dawel.
- 21) Bydd deiliad y drwydded yn sicrhau bod unrhyw giw i fynd i mewn i'r fangre sydd wedi datblygu y tu allan i'r fangre yn drefnus ac yn cael ei oruchwylio gan staff y drws er mwyn sicrhau nad oes unrhyw niwsans cyhoeddus neu rwystr i'r briffordd gyhoeddus.

- 22) Rhaid i'r ardal allanol y ceir trwydded caffi palmant ar ei chyfer gael ei goruchwyllo gan staff yn rheolaidd er mwyn sicrhau y defnyddir gwydrau plastig yn unig.
- 23) Ni cheir gwaredu na gosod gwydr, gan gynnwys poteli, yn yr ardaloedd awyr agored rhwng 23:00 ac 08:00. (Nid yw hyn yn cynnwys defnyddio a symud gwydrau, lle y caniateir hynny, gan gwsmeriaid yn yr ardaloedd trwyddedig)
- 24) Gweithredir cynllun prawf oedran Her 21 yn y fangre a'r unig ffurfiau adnabod derbyniol fydd llun, dyddiad geni a marc holograffig.
- 25) Cedwir cofnod yn rhoi manylion pob achos o wrthod gwerthu alcohol. Dylai'r cofnod gynnwys dyddiad ac amser gwrthod y gwerthu ac enw'r aelod o staff a wrthododd ei werthu. Dylai'r cofnod fod ar gael i'w archwilio yn y fangre gan yr heddlu neu swyddog awdurdodedig y cyngor ar bob achlysur pan fydd y fangre ar agor.
- 26) Bydd safleoedd yn cadw cofnodion cyfredol o hyfforddiant staff mewn perthynas â gwerthiannau sy'n gysylltiedig ag oedran a sicrhau eu bod ar gael i'w harchwilio gan swyddog yr heddlu neu swyddog awdurdodedig y cyngor.
- 27) Dylai'r hysbysiadau gael eu harddangos yn glir yn y fangre er mwyn pwysleisio i gwsmeriaid nad yw alcohol yn cael ei werthu i bobl dan 18 oed neu ar eu rhan.

Rheswm dros y Penderfyniad

Ystyriodd y pwyllgor y Polisi Arbennig mewn perthynas ag effaith gronnol ac roedd yn ymwybodol bod rhagdybiaeth i wrthod y drwydded oni bai y gallai'r ymgeisydd ddangos na fyddai rhoi'r drwydded yn cael effaith negyddol ar yr effaith gronnol bresennol.

Ar ôl ystyried y cais, teimlai'r pwyllgor fod yr ymgeisydd wedi dangos yn llwyddiannus na fyddai'r cynllun newydd yn cael effaith negyddol ar yr ardal effaith gronnol gan ystyried y materion canlynol:

Mae'r cynnydd arfaethedig yn uchafswm nifer y cwsmeriaid ar gyfer y safle yn cyfateb i'r cynnydd arfaethedig mewn cyfanswm nifer y lleoedd eistedd.

Nododd yr aelodau uchafswm nifer y cwsmeriaid ar gyfer y safle, gan gynnwys nifer y uchafswm nifer y bobl ar bob llawr ac y byddai'n ofynnol i'r ymgeisydd ddogfennu'r manylion hyn yn yr asesiad risg tân ar gyfer y safle a sicrwydd yr ymgeisydd y byddai hyn ar waith.

Dangosodd yr ymgeisydd lefel isel iawn o ddigwyddiadau a arweiniodd at weithredu gan yr heddlu ac amlinellodd niferoedd a dynodiad goruchwylwyr drysau SIA a gynigiwyd ar bob llawr, pan oedd pob llawr yn weithredol i gynorthwyo amcan diogelwch y cyhoedd ac amcan atal troseddu ac anhrefn.

Cydnabu'r pwyllgor fod y cynllun newydd yn helpu i symud i ffwrdd o'r sefydliad yfed alcohol sylweddol ar eich sefyll ac y byddai'n annog y gweithredwr i hyrwyddo ei wasanaeth bwrdd.

Diystyrodd y pwyllgor y darnau o ddatganiad Mr Nunes lle mae beirniadaeth yn cael ei gwneud o'r Heddlu a'r swyddogion trwyddedu gan eu bod yn amhriodol, yn ddi-sail ac yn tynnu sylw oddi ar y materion a oedd yn berthnasol i'r cais ei hun. Nododd y pwyllgor y sylwadau a wnaed gan yr ymgeisydd ynglŷn ag effaith gadarnhaol darparu bwyd a weinir mewn perthynas ag yfed alcohol ond diystyrodd y datganiad bod darparu bwyd sylweddol wrth werthu alcohol wedi'i fabwysiadu'n ddiweddar fel un o amodau'r llywodraeth yn genedlaethol, gan nad yw hyn yn berthnasol yng Nghymru.

Diystyrodd y pwyllgor hefyd y darnau yn natganiad Mr Nunes a oedd yn ymwneud â chwmpas ei fuddsoddiad yn economi nos Abertawe a'i waith wrth ymgyrchu dros droi Wind Street yn barth cerddwyr gan nad ystyriwyd bod hyn yn berthnasol i'r cais ger eu bron.

Nododd a diystyrodd y pwyllgor hefyd y paragraff a oedd yn ymwneud â nifer y safleoedd sydd ar gau a ddarparwyd gan yr ymgeisydd gan nad oedd hyn yn dangos darlun llawn o'r safleoedd trwyddedig yn yr ardal oedd y cyfeirir atynt.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.52pm

Cadeirydd